

Canllawiau drafft cadw dysgwyr yn ddiogel

Ffurflen ymateb i'r ymgyngoriad

Eich enw: Rebecca Williams

Sefydliad (os yw'n berthnasol): UCAC

e-bost / rhif ffôn: rebecca@ucac.cymru / 01970 639950

Eich cyfeiriad:

UCAC, Ffordd Penglais, Aberystwyth SY23 2EU

Dylid dychwelyd ymatebion erbyn 7 Tachwedd i:
Y Gangen Cefnogi Cyflawniad a Diogelu
Is-adran Cymorth i Ddysgwyr
Y Gyfarwyddiaeth Addysg
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

neu gellir cwblhau'r ffurflen yn electronig a'i hanfon i'r cyfeiriad isod:

e-bost: keepinglearnerssafe@llyw.cymru

Cwestiwn 1 – Ydych chi'n cytuno bod y newidiadau drafft a wnaed i ganllawiau diwygiedig Cadw dysgwyr yn ddiogel yn briodol ac yn effeithiol? Os nad ydych, pa drefniadau pellach y credwch sydd eu hangen?

Cytuno	☐	Anghytuno	☐	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	☐
---------------	--------------------------	------------------	--------------------------	--	--------------------------

Sylwadau ategol

Yn gyffredinol, mae'r Canllawiau wedi'u hysgrifennu'n glir ac yn gryno, ac mae'r ddogfen wedi'i strwythuro mewn modd sy'n ei gwneud yn hwylus i ddod o hyd i'r wybodaeth angenrheidiol heb orfod darllen drwy'r cyfan. Mae'r canllawiau'n ymddangos yn addas at eu pwrpas.

Cwestiwn 2 – Ydych chi'n cytuno â'r rôl a'r cyfrifoldebau a amlinellir yng nghanllawiau Cadw dysgwyr yn ddiogel ar gyfer yr Uwch Berson Dynodedig ar gyfer amddiffyn plant a swyddog arweiniol yr awdurdod lleol ar gyfer diogelu? Os nad ydych, pa drefniadau pellach y credwch sydd eu hangen?

Cytuno	✓	Anghytuno	☐	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	☐
---------------	---	------------------	--------------------------	--	--------------------------

Sylwadau ategol

Efallai y byddai'n briodol cyfeirio at yr angen i sicrhau cefnogaeth briodol i ddeiliaid y swyddi/cyfrifoldebau hyn – nid yn unig cefnogaeth i gyflawni'r rôl, ond cefnogaeth o safbwynt lles, gan fod tebygolrwydd sylweddol o ddod i gysylltiad â materion a allai gadael eu hôl yn emosiynol ar yr unigolion sy'n delio â nhw.

Cwestiwn 3 – Ydych chi'n credu bod yr adnodd archwilio trefniadau diogelu yn rhoi'r lefel gywir o gefnogaeth i ysgolion?

Cytuno	✓	Anghytuno	☐	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	☐
---------------	---	------------------	--------------------------	--	--------------------------

Sylwadau ategol

Cwestiwn 4 – Pan gaiff y fersiwn derfynol o ganllawiau Cadw dysgwyr yn ddiogel eu cyhoeddi yn dilyn yr ymgynghoriad hwn, bydd rhaglen weithredu yn dechrau. Pa weithgarwch gweithredu (hyfforddiant a/neu godi ymwybyddiaeth ar gyfer cynulleidfaoedd penodol, er enghraifft) y bydd ei angen yn eich barn chi?

Sylwadau ategol

Cwestiwn 5 – Hoffem gael eich barn ar yr effeithiau y byddai canllawiau Cadw dysgwyr yn ddiogel yn eu cael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar:

- i) gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg
- ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Beth fyddai'r effeithiau yn eich barn chi? Sut mae cynyddu effeithiau cadarnhaol neu leihau effeithiau negyddol?

Sylwadau ategol

Cwestiwn 6 – Eglurwch hefyd sut gellid ffurfio neu newid y polisi arfaethedig:

- i) fel bod effeithiau cadarnhaol neu fwy o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg
- ii) fel nad oes effeithiau andwyol ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Sylwadau ategol

Cwestiwn 7 – Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych chi faterion perthnasol nad ydym wedi rhoi sylw penodol iddynt, defnyddiwch y blwch isod i roi gwybod i ni amdanynt.

Sylwadau ategol

1.3 Oni ddylai'r 'rhaid' yn yr ail linell gael ei wneud yn drwm – yn hytrach na, neu yn ogystal â'r 'rhaid' yn y llinell gyntaf?

1.10 Yn y Gymraeg, defnyddir 'Pennaeth' ar gyfer pennaeth ysgol yn ogystal â phennaeth coleg (yn wahanol i'r Saesneg, ble mae gwahaniaethu rhwng 'principal' a 'headteacher'). Felly mae dweud 'dyletswyddau ar benaethiaid, prifathrawon...' yn taro'r chwithig. Tybed a fyddai'n well dweud 'dyletswyddau ar benaethiaid colegau, penaethiaid ysgolion...' Mae hyn yn digwydd mewn mannau eraill yn y ddogfen.

1.22 Mae'r dogfennau y cyfeirir atynt gan y Comisiynydd Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ar gael yn y Gymraeg (o'r dudalen we y mae'r ddolen yn cysylltu â hi); felly dylid rhoi teitlau Cymraeg y dogfennau fan hyn yn hytrach na'r teitlau Saesneg

2.5 Mae'r ddogfen 'Gweithdrefnau Disgyblu a Diswyddo Staff Ysgol' yn cael ei diweddarau ar hyn o bryd. Mae'n debygol y bydd angen diweddarau dyddiad cyhoeddi'r ddogfen yn y paragraff hwn. Mae cyfeiriadau at y ddogfen hon yn ymddangos mewn sawl man yn y Canllawiau.

3.25 Mae brawddeg gyntaf y paragraff hwn yn anodd ei ddilyn yn y Gymraeg, ac nid yw'n cyfateb yn union â'r Saesneg. Awgrymwn fod angen ailedrych arno er mwyn ei wneud yn gwbl glir.

3.47-3.49 Dyletswydd i gadw cyfrinachedd – cytunwn â chynnwys y paragraffau hyn sef amlinelliad o'r amgylchiadau pan nad yw'r ddyletswydd yn absoliwt; ond teimlwn y byddai'n werth ychwanegu brawddeg sy'n pwysleisio pa mor bwysig yw cyfrinachedd yn gyffredinol yn y cyd-destun hwn, oni bai am yr amgylchiadau penodol iawn a restrir.

4.17 Efallai y dylid cyfeirio at ysgolion â dosbarthiadau chwech hefyd, yn yr un cymal â cholegau – gan fod ganddynt ddysgwyr sy'n 18 oed, ac efallai'n hŷn

Pennod 7: Diogelwch ar-lein: mae'r bennod hon yn arbennig yn llawer mwy disgrifiadol, ac yn llawer fwy o fynegai o adnoddau nag ydyw o ganllaw yn ei hun. Efallai bod hynny'n anorfod oherwydd cymhlethdod y maes, ond awgrymwn y gallai fod yn werth rhoi ychydig mwy o ganllaw pendant yn yr adran hon.

8.2 Nid yw'r dolenni i'r Prevent Duty Guidance yn gweithio; a oes fersiynau Cymraeg o'r dogfennau hyn – ac felly teitlau Cymraeg y dylid eu defnyddio yn y Canllaw?

9.14 Nid ydym, fel undeb, yn ymwybodol o'r apiau o'r fath. Pwy sy'n eu cynnal - asiantaethau masnachol? Angen fwy o eglurhad ynghylch eu statws.

Mae ymatebion i ymgynghoriadau yn debygol o gael eu gwneud yn gyhoeddus, rhyngrwyd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i'ch ymateb aros yn ticiwch yma:

☐